# Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022

**2022 dsc 1**

**RHAN 3**

SICRHAU ADDYSG DRYDYDDOL AC YMCHWIL A’U CYLLIDO

*Cyllido addysg uwch*

**90 Cymorth ariannol o dan adrannau 88 a 89: telerau ac amodau**

(1) Caiff y Comisiwn ddarparu adnoddau ariannol o dan adran 88 neu 89 ar y telerau a’r amodau y mae’r Comisiwn yn ystyried eu bod yn briodol.

(2) Caiff y telerau a’r amodau (ymhlith pethau eraill)—

(a) galluogi’r Comisiwn i’w gwneud yn ofynnol ad-dalu, yn gyfan gwbl neu’n rhannol, symiau a dalwyd ganddo os na chydymffurfir ag unrhyw un neu ragor o’r telerau a’r amodau y talwyd y symiau yn ddarostyngedig iddynt;

(b) ei gwneud yn ofynnol talu llog mewn cysylltiad ag unrhyw gyfnod pan fydd swm sy’n ddyledus i’r Comisiwn yn unol ag unrhyw un neu ragor o’r telerau a’r amodau yn parhau i fod heb ei dalu.

(3) Ni chaiff y telerau a’r amodau ymwneud â chymhwyso unrhyw symiau sy’n deillio ac eithrio o’r Comisiwn.

(4) Rhaid i’r telerau a’r amodau mewn perthynas ag adnoddau ariannol a ddarperir o dan adran 89(3)(a) i berson nad yw’n ddarparwr cofrestredig, gynnwys gofyniad i’r person—

(a) os yw wedi cael hysbysiad o dan adran 126(1), gael cynllun diogelu dysgwyr yn ei le sydd wedi ei gymeradwyo gan y Comisiwn (o dan adran 126(3) neu (5)) ar y dyddiad a bennir yn y telerau a’r amodau neu cyn y dyddiad hwnnw, a rhoi effaith i’r cynllun,

(b) os yw’r person yn ddarparwr addysg drydyddol yng Nghymru, gydymffurfio â’r gofynion sydd wedi eu cynnwys yn y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr a

gyhoeddir o dan adran 129(1) neu unrhyw god diwygiedig a gyhoeddir o dan adran 129(3), ac

(c) rhoi sylw i gyngor neu ganllawiau a roddir gan y Comisiwn i'r person (naill ai'n benodol neu i bersonau yn gyffredinol) wrth arfer swyddogaethau'r Comisiwn yn y Ddeddf hon.